# Cyngor Cymuned Tudweiliog

## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 8fed Medi 2025
Festri Capel Garnfadryn

Presennol: Dafydd Williams, Alyn Williams, Deio Williams, John Davies, Terry Hughes, Chirs Brady, Henri Hughes, Sian Parri, Alan Hughes, Gareth Jones

Ymddiheuriadau: Sioned Pearson, Catrin Williams

1. Cadeirwyd yn absenoldeb y Cadeirydd gan Henri Hughes, estynnodd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cyfnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Mynwent Newydd Tudweiliog-** Derbynwyd cadarnhad fod cais cynllunio y fynwent newydd wedi ei ganiatau gan y Pwyllgor Cynllunio a gynhalwyd heddiw. Trafodwyd y ffordd ymlaen, penderfynwyd y byddai Chris Brady yn cael sgwrs hefo pwyllgor mynwent Tudweiliog i drafod ac i'w gwahodd y gyfarfod Cyngor Cymuned mis nesaf a gynhelir yn Tudweiliog.
   b. **Polisi Gosod Tai** –Cyflwynodd Sian Parri adroddiad byr ar sefyllfa'r polisi, dywedodd eu bod yn disgwyl clywed gan bwyllgor Llanw Llyn ynglyn a chyhoeddi erthygl yn y papur bro fyddai'n gofyn faint o ofyn lleol sydd i'r holl dai sy'n cael eu adeiladu ar y funud.
   c. **Hysbysfwrdd –** Addawodd Chris y byddai'r hysbysfwrdd yn cael ei osod cyn diwedd y mis.
   C. **Archwyliad Allanol –** Dywedodd y Clerc ei bod yn disgwyl derbyn Yr adroddiad gan yr archwylwyr allanol yn ystod mis Medi.
   Ch. **Ymddiswyddiad y Clerc –** Ni dderbynwyd unrhyw ymholiad am swydd Clerc y Cyngor. Bydd yr hysbyseb yn cael ei roi yn Llanw Llyn eto mis Medi.

d. **Diffibrilwyr** – Derbynwyd cadarnhad gan Einir Wyn Clerc Cyngor Cymuned Llanengan yn nodi fod cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Abersoch nos Fercher Medi 17eg i drafod sut i gynnal a chadw'r diffibrilwyr gan fod newidiadau wedi bod ar bwy sy'n gyfrifol amdano.

dd. **Twmpath Tarmac ar lon Porthysgaden** – Derbynwyd ebost gan yr adran ffyrdd yn dweud fod y twmpath yn cael ei storio yno yn barod i'w ddefnyddio i gau tyllau mewn lonydd cyfagos. Bydd y twmpath yn cael ei ddefnyddio cyn diwedd y mis.

e. **Llwybyr troed Porthychain i Tyddyn Belyn –** cafwyd cadarnhad for y llwybyr erbyn hyn wedi ei dorri.

f. **Gor yrry drwy pentref Tudweliog –** Derbynwyd ebost gan swyddog o'r adran Traffig yn gofyn am gadarnhad ble yn union mae'r pryder mwyaf. Dywedodd hefyd mai anhebygol iawn fyddai'r cais am droedffordd newydd yn cael ei ganiatau gan fod cynlluniau o'r fath tu hwynt i gyllideb fewnol y gwasanaeth hwn. Bydd y Clerc yn ymateb drwy nodi yn union ble mae'r pryder mwyaf a hefyd rhoi gwahoddiad iddo ddod draw i'r pentref i drafod hefo Cynghorwyr Cymuned ward Tudweiliog.

4. Gohebiaeth:

a. **Cyflog y Clerc -** Cafwyd caniatad i'w dalu.

b. **Anfoneb Zurich £441.03 –** derbynwyd caniatad i'w thalu

c. **Anfoneb Archwyliad Mewnol £420.00 –** derbynwyd caniatad i'w thalu

Ch.**Derbyn ail hanner y preasept - £5000.00**

d. **Rhannu'r preasept** – Rhannodd y Clerc maentolen mis Medi gyda amcangyfrif o wariant arferol y Cyngor o rwan i ddiwedd Mawrth. Penderfynwyd rhannu fel a ganlyn:

£100.00 Mynwent Dinas
£100.00 Mynwentydd Bro Madryn

5. Unrhyw fater arall:

a. Cafwyd cwyn fod ffens cae a osodwyd gan Cyngor Gwynedd pan yn adeiladu maes parcio'r Ysgol yn cael ei thorri (gan bersonau sy'n neidio o ben wal y maes parcio i'r cae. Bydd y Clerc yn cysylltu a Cyngor Gwynedd i ofyn fyddai'n bosib rhoi ffens ar dop

y wal gan byddai hyn yn rhwystro rhywrai i fynd drosodd i'r cae a malurio eiddo'r ffarmwr.

b. Cafwyd cwyn fod  clawdd sy'n perthyn i'r Lion ac i  lawr am yr Ysgol wedi gor dyfu, sy'n golygu fod loriau danfon i'r Ysgol yn cael trafferthion.  Bydd y Clerc yn cysylltu gyda'r adran Priffyrdd i ofyn eu barn ar y sefyllfa.
c. Prthysgaden -    Derbynwyd cwyn unwaith eto fod yr adeilad sydd ar y tir ym Mhorthysgadenyn cael ei falurio. Mae hwn yn rhan o hanes yr ardal ac felly dylid ei amddiffyn. Sylweyd hefyd fod nifer o blacaiu 'er cof am ..' yn cael eu gosod yn yr ardal -   Bydd y Clerc yn cysylltu ac Adran Cynllunio i drafod y placaiau a  Carter Jonas i drafod y fandaliaeth.

.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun Hydref 13eg am 7.30yh
Festri Capel Tudweiliog